ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.cymru
www.erw.wales

**Cyd-Bwyllgor ERW**
**Dydd Llun, 16eg Gorffennaf, 2018**
**Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin**
**10.00 am - 1.40 pm**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn [Cadeirydd] Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jennifer Raynor | Dinas a Sir Abertawe |
| Y Cynghorydd David Simpson | Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Peter Rees | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | |
| Mr Phil Roberts | Prif Weithredwr Arweiniol - ERW a Chyngor Dinas a Sir Abertawe |
| Mr Eifion Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Ian Westley | Cyngor Sir Penfro |
| Mr Ian Eynon | Cyngor Sir Penfro - (Dirprwy Swyddog A151 ERW) |
| | |
| Mr Aled Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Ms Betsan O'Connor | Rheolwr Gyfarwyddwr ERW |
| Mr Ian Budd | Cyngor Sir Powys – Cyfarwyddwr Arweiniol ERW |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro (Swyddog A151 ERW) |
| Ms Elin Prysor | Cyngor Sir Ceredigion (Swyddog Monitro ERW) |
| Ms Jo Hendy | Cyngor Sir Penfro (Pennaeth Archwilio Mewnol ERW) |
| Mr Chris Llewellyn | CLILC |
| Mr Steve Vincent | Lywodraeth Cymru |
| Mr Jeremy Saunders | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mr Jon Mather | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mrs Janine Owen | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Sir Abertawe), y Cynghorydd Rosemarie Harris (Cyngor Sir Powys), y Cynghorydd Rob Jones (Cyngor Castell-nedd Port Talbot), Ms Ruth Conway (Llywodraeth Cymru), Mr Mark James (Cyngor Sir Caerfyrddin) a Mr Steven Phillips (Cyngor Castell-nedd Port Talbot).

2. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol

3. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALWYD AR Y 21 MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2018, gan eu bod yn gofnod cywir.**

4. **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2018.

5. **DIWEDDARIAD Y PRIF WEITHREDWR ARWEINIOL**

Cafodd y Cyd-bwyllgor Adroddiad Sicrwydd diweddar a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu, cynnydd a manylion am y swyddogion cyfrifol.

Roedd yr adroddiad o ran y weithdrefn gymeradwyo yn cynnig mwy o eglurdeb o ran y broses ffurfiol o gymeradwyo. Dangoswyd y broses yn rhan o siart llif a atodwyd i'r adroddiad. Er y cytunwyd ar y weithdrefn hon mewn egwyddor byddai proses mwy ffurfiol yn cael ei darparu yn ystod cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

**CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad diweddaru gan y Prif Weithredwr Arweiniol**

6. **ADRODDIADAU O GANLYNIAD I'R CYFARFOD DIWETHAF:-**

6.1. **YSGOLOION SY'N PERI GOFID**

Yn ystod ei gyfarfod diwethaf gofynnodd y Cyd-bwyllgor am gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cymorth sydd ar gael i ysgolion sy'n peri pryder [cofnod 6].

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ynghyd â dogfennau cyfarwyddyd ynghylch Ysgolion ERW sy'n Peri Pryder 2017-18 a Phrotocol ERW ynghylch Ysgolion sy'n Peri Pryder. Roedd y dogfennau wedi'u cynllunio ar gyfer Ymgynghorwyr Her ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am y protocol a'r cymorth a ddylai fod ar gael i ysgolion sy'n peri pryder.

Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr er bod rhanbarthau'n darparu cymorth i ysgolion sy'n peri pryder, roedd y cyfrifoldeb statudol ar gyfer pob ysgol yn parhau yng ngofal yr Awdurdod Lleol.

Fodd bynnag, cydnabuwyd bod llawer o ysgolion yn perthyn i'r dosbarth 'ysgol sy'n peri pryder' ac nad oedd y pryderon cynnar ynghylch perfformiad ysgol yn cael eu nodi nac yn cael sylw yn ddigon cynnar ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, atodwyd diagram i'r adroddiad yn nodi ac yn egluro rolau a chyfrifoldebau wrth adnabod a thynnu sylw at bryderon.

Felly'r gobaith oedd y byddai'r ddogfen ganllaw yn nodi problemau yn gynt, yn rhoi cymorth ar waith ac yn lleihau nifer yr ysgolion sy'n datblygu meysydd sylweddol i'w gwella.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder bod y ddogfen wedi cael ei hysgrifennu heb roi sylw priodol i Awdurdodau Lleol. Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr bod y ddogfen wedi cael ei diweddaru a bod diagram wedi'i ddatblygu i gael cymorth yn gyflym ac i sicrhau eglurder o ran pwy oedd yn gyfrifol am beth.

- Dywedwyd bod rhywfaint o ddyblygu o ran y lefelau staffio ac nid oedd yn glir pwy oedd yn gwneud y penderfyniadau.

- Awgrymwyd y byddai'n arfer gorau i'w rannu ar lefel ranbarthol er mwyn mapio'r hyn oedd Awdurdodau eraill yn ei gyflawni yn y maes hwn.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Arweiniol, drwy atgyfnerthu'r dull gweithredu a llunio strategaethau clir roedd gwelliant sylweddol eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys nodi a chyrraedd ysgolion yn ddigon cynnar i leihau ymyriadau, ymdrech fwy cydweithredol ac ar y cyd, llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithlon.

- Mewn ymateb i sylw ynghylch casglu gwybodaeth am y gweithgarwch o fewn cynllun busnes ERW, dywedodd y Prif Weithredwr Arweiniol y byddai angen cynnal gwaith ychwanegol gan gynnwys nodi meysydd o arfer gorau, a nodi ble a'r defnydd gorau o adnoddau. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Busnes a'i gylchredeg i aelodau'r Cyd-bwyllgor maes o law.

  **CYTUNWYD bod ystyriaeth o'r adroddiad gan gynnwys y gwaith ychwanegol a nodwyd ar wella ysgolion, yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.**

## 6.2. CANLYNIADAU TGAU

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad a roddodd drosolwg o ganlyniadau cenedlaethol TGAU.

Dywedodd y Cadeirydd er mwyn rhoi cyfle i'r Cyd-bwyllgor ddadansoddi'r canlyniadau ar y cyd â'r blynyddoedd blaenorol, byddai'n fuddiol cael adroddiad pellach yn dilyn canlyniadau TGAU 2018.

**Cytunwyd:**

**6.2.1 i dderbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd;**

**6.2.2 y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn y cyfarfod nesaf, i gynnwys y newidiadau o ran mesurau atebolrwydd, a Chrynodeb Gweithredol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r canlyniadau.**

## 6.3. CYFLWYNIAD I'R GRWP CRAFFU AR ADOLYGU AC ADNEWYDDU

Gofynnodd y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf i gael y cyflwyniad a ddarparwyd i'r Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW ar 9 Mawrth 2018.

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried y cyflwyniad a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a wnaed yn dilyn argymhellion adolygu a diwygio'r Cyd-bwyllgor.

Mynegwyd y sylwadau canlynol wrth ystyried y cyflwyniad:-

Cafwyd sylw bod perygl i gymhlethu'r strategaeth gyfan, teimlwyd mai arweinyddiaeth, addysgu a dysgu oedd y ffactorau allweddol ac roedd yn bwysig sicrhau eglurder.

Awgrymwyd cynnwyd y Strwythur Llywodraethu ERW a nodir yn Eitem 9.3 yn cael ei gynnwys yn y rhaglen adolygu a diwygio a'i ddefnyddio fel y prif sbardun.

**CYTUNWYD**

**6.3.1 derbyn yr adroddiad;**

**6.3.2 cynnwys yr Adroddiad Amlinellol ar gyfer Adolygu a Diwygio Trefniadau Llywodraethu (eitem 9.3) yn Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW.**

## 6.4. GOHEBIAETH I GRWP CYNGHORWYR CRAFFU

Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor ystyried llythyr drafft gan ERW a gafodd ei ysgrifennu mewn ymateb i lythyr (09/04/2018) a dderbyniwyd gan Gadeirydd Cyd-bwyllgor ERW oddi wrth y Cynghorydd Darren Price, Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW.

**CYTUNWYD cymeradwyo'r llythyr ymateb drafft gan gynnwys cyfeiriad at y canlynol:**

**i) bod y Rhaglen Adolygu a Diwygio yn parhau ar waith**
**ii) bod newidiadau yn y Model Cenedlaethol yn cael eu monitro cyn y gellir gwneud penderfyniadau terfynol o ran strwythur ERW yn y dyfodol.**

## 6.5. ADOLYGU LLETY PRESENNOL ERW

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar adolygiad o lety presennol ERW yn Y Llwyfan, Caerfyrddin.

Dywedodd y Swyddog Monitro y gellid anwybyddu ystyriaethau a oedd yn ymwneud â'r Les/Trwyddedau o ran penderfyniadau a oedd yn ymwneud ag adleoli ERW.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau presennol ERW gan gynnwys manylion am y sail resymegol ar gyfer ceisio llety yn y dyfodol a'r materion iechyd a diogelwch cyfredol.

Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor ystyried y sefyllfa bresennol ac i lunio barn ynghylch addasrwydd y llety presennol a'r gwerth am arian wrth adnewyddu'r brydles bresennol wrth ystyried y dewisiadau eraill sydd ar gael. Yn ogystal, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r rhesymau dros symud i safle newydd, gofynnwyd am benderfyniad cyflym er mwyn sicrhau bod amserlen ar waith gan effeithio cyn lleied â phosibl ar waith y sefydliad o ddydd i ddydd.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod ERW ar hyn o bryd yn cyflogi 47 aelod o staff, a bod 40 ohonynt ar hyn o bryd yn defnyddio'r adeilad.

Dywedwyd hyd nes y byddai'r Model Cenedlaethol yn cael ei gadarnhau, nid oedd y Cyd-bwyllgor mewn sefyllfa i ystyried lle swyddfa arall ac y byddai'n ddoeth i ofyn am opsiwn dros dro.

Yn dilyn y sylw uchod, bu'r Cyd-bwyllgor yn trafod opsiynau dros dro a oedd yn cynnwys darparu cyfleusterau gweithio ystwyth ym mhob Awdurdod Lleol.

Cafwyd cynnig na ddylai staff ERW ddefnyddio adeiladau Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni eu gwaith yn y dyfodol, a chafodd y cynnig hwn ei eilio.

O ran y swm sylweddol o arian a oedd yn cael ei wario ar hyn o bryd ar gynadleddau a seminarau, awgrymwyd y byddai'n fuddiol petai'r 6 Awdurdod Lleol yn cynnal y cynadleddau yn eu tro.  Yn ogystal, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod ymholiadau eisoes ar waith i ddefnyddio cyfleusterau mewn ysgolion.

**CYTUNWYD**

**6.5.1 (i) bod y sefyllfa bresennol o ran y brydles bresennol yn cael ei nodi;**

**(ii) bod angen ail drafod y brydles gyfredol am gyfnod pellach, yn ddibynnol ar gynnydd Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW a'r Model Cenedlaethol;**

**6.5.2 bod y sefyllfa bresennol o ran yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch yn cael ei nodi;**

**6.5.3 bod yr arbedion effeithiolrwydd a'r gwerth am arian o ran symud lleoliad yn cael eu nodi;**

**6.5.4 dirprwyo i'r:**

**(a) Prif Weithredwr Arweiniol, y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Arweiniol Addysg i ystyried yr agweddau lliniaru o ran iechyd a diogelwch;**

**(b) y Swyddog Monitro i ystyried sefyllfa gyfreithiol y brydles;**

**6.5.5 na ddylai staff ERW ddefnyddio adeiladau Llywodraeth Cymru os bydd angen swyddfeydd eraill yn y dyfodol.**

## 6.6. CÔD LLYWODREATHU CORFFORAETHOL

Yn ystod ei gyfarfod ar 18 Mai, 2018, cytunodd y Cyd-bwyllgor i fabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol [cofnod 5.1].  Yn dilyn newid yn y Rheoliadau a chyngor gan Bennaeth Archwilio Mewnol ERW bu'n rhaid diweddaru'r Côd yn unol â hynny.

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried y Côd Llywodraethu Corfforaethol a nodwyd bod y Côd yn berthnasol i'r staff a oedd yn cael eu cyflogi'n ganolog gan ERW yn unig a byddai gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'u Codau Llywodraethu Corfforaethol lleol.

**CYTUNWYD cymeradwyo'r Côd Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig.**

## 6.7. CYNLLUN BUSNES ERW

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes ERW 2018/19. Roedd y Cynllun yn canolbwyntio ar bedwar amcan allweddol a oedd yn deillio o Genhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru:-

- Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
- Sicrhau bod arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio ar y cyd i godi safonau
- Cefnogi ein hysgolion i fod yn ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a llesiant
- Sicrhau trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn ar gyfer cefnogi system hunan-wella

Roedd Cynllun Busnes ERW hefyd yn amlinellu sut y byddai'r meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu cyllido yn unol â Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith Canlyniadau Addysg yng Nghymru sy'n rhan o'r Cynllun yn dangos sut y byddai Llywodraeth Cymru yn dwyn pob rhanbarth i gyfrif yn erbyn mesurau canlyniadau allweddol.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

Dywedodd y Cyfarwyddwr Arweiniol yn dilyn cwblhau'r Cynllun Busnes cafodd hunanwerthusiad ei gynnal a oedd wedi nodi meysydd o bryder. Roedd y meysydd hyn yn nodi y dylid fod wedi ymgynghori'n fwy helaeth wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes a'r gofyniad i baratoi adroddiad cryno ar gyfer cynulleidfa wahanol.

Mynegwyd sylwadau nad oedd y Cynllun yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol a bod angen rhagor o eglurder o ran y prif gyfrifoldebau a'r llinellau adrodd.

Yn dilyn y sylwadau, awgrymwyd y dylid gwneud gwelliannau i'r cynllun ynghyd â chrynodeb, er mwyn lliniaru'r risg o beidio â chydymffurfio, awgrymwyd ymhellach y dylid anfon y Cynllun ar e-bost at bob Aelod o'r Cyd-bwyllgor i geisio cael cytundeb erbyn 31 Gorffennaf 2018.

**CYTUNWYD:**

**6.7.1 bod cynllun busnes ERW yn cael ei dderbyn fel y brif ddogfen strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19;**

**6.7.2 nodi bod ERW wedi cysoni ei waith gyda Chenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru;**

6.7.3 **i) i gyfarwyddo Cyfarwyddwr Arweiniol Addysg a'r Rheolwr Gyfarwyddwr i wneud gwelliannau i gynllun busnes ERW;**

**ii) llunio Crynodeb o'r Cynllun i'r Bwrdd Gweithredol;**

**iii) anfon y Crynodeb at holl aelodau'r Cyd-bwyllgor ar e-bost, er mwyn cael cytundeb erbyn 31st Gorffennaf 2018;**

**6.7.4 Rhoi gwybod i holl Swyddogion A151 yr Awdurdodau Lleol am y risg.**

## 7. ADRODDIADAU CYLLID AC ARCHWILIO MEWNOL:-

### 7.1. PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL CONSORTIWM ERW BARN SICRWYDD FLYNYDDOL 2017-18

Cafodd y Cyd-bwyllgor farn blynyddol y Pennaeth Archwiliadau Mewnol ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a trefniadau rheoli ariannol ERW er mwyn llywio Datganiad Llywodraethu Blynyddol ERW.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod adran 4, Cyflawni'r Cynllun Archwilio wedi tynnu sylw at oedi o ran cyrraedd consensws rhwng Awdurdodau Lleol ERW a bod hyn wedi atal y Rhaglen Diwygio ac Adolygu rhag symud ymlaen. Roedd hyn hefyd wedi arwain at oedi o ran diweddaru'r Cytundeb Cyfreithiol. Dylai'r materion hyn gael eu hystyried fel Materion Llywodraethu Sylweddol o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn ogystal, roedd adran 4 o fewn yr adroddiad hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd y Côd Rhanbarthol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei fabwysiadu, ac felly, dylid ei ystyried yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Y consensws cyffredinol gan y Cyd-bwyllgor oedd y dylid sicrhau ei fod yn flaenoriaeth uchel a bod y gwaith angenrheidiol i gryfhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gwblhau mor fuan â phosibl cyn cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

**CYTUNWYD:**

**7.1.1 cyfeirio'r mater at y tri Swyddog Arweiniol, (Rheolwr Gyfarwyddwr, Prif Weithredwr Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol) i lunio cynllun lliniaru erbyn cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor;**

**7.1.2 Y Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Cytundeb Cyfreithiol, i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, i gynnwys penderfyniadau blaenorol y Cyd-bwyllgor oedd wedi'u dirprwyo a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddirprwyaethau'r Bwrdd Gweithredol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr (fel y nodir yn y Cytundeb Cyfreithiol);**

**7.1.3 Ychwanegu Cytundeb Cyfreithiol ERW yn eitem sefydlog ar yr agenda.**

## 7.1a ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT CONSORTIWM ERW 2017-18

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar Archwiliad Mewnol Consortiwm ERW ar gyfer 2017-18 a oedd yn rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a'r trefniadau rheoli ariannol sydd ar waith ar gyfer consortiwm ERW.

Yn dilyn sylw a godwyd ynglŷn â phwysigrwydd sicrwydd parhaus, gofynnodd y Cadeirydd o'r eitem hon fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Cyd-bwyllgor at ddibenion monitro.

**Cytunwyd:**

**7.1a) i) nodi Adroddiad Archwilio Mewnol Consortiwm ERW 2017-18;**

**7.1a) ii) bod Adroddiad Archwiliol Mewnol Consortiwm ERW 2017-18 yn eitem sefydlog ar agenda'r Cyd-bwyllgor.**

## 7.1b) DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CONSORTIWM ERW 2017-18

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2017-18 Consortiwm ERW a oedd yn cynnwys y canfyddiadau o'r adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu 2017-18 am gonsortiwm ERW.

Nodwyd bod y camau rheoli wedi cael eu nodi, ac yn broses o gael eu cytuno a'u cwblhau.

Ni dderbyniwyd y Datganiad Llywodraethu Drafft yn ei ffurf bresennol.

Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd yn bosibl i'r Cyd-bwyllgor ystyried hyn oherwydd nad oedd y camau rheoli yn gyflawn. Dywedodd Swyddog Adran 151 ERW bod angen penderfyniad y Cyd-bwyllgor ar y mwyafrif o'r camau rheoli. Gofynnodd y Cadeirydd i'r camau rheoli gael eu cwblhau a'u gohirio hyd nes cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor. Dywedodd Swyddog A151 ERW bod yn rhaid cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Consortiwm ERW cyn y bydd Datganiad Cyfrifon ERW yn cael ei lofnodi gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**CYTUNWYD**

**7.1b) i) y byddai camau rheoli Datganiad Llywodraethu Blynyddol Consortiwm ERW 2017-18 yn cael eu cwblhau gan Swyddogion Arweiniol gyda chynllun gweithredu yn nodi'r camau lliniaru;**

**7.1b) ii) a byddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau'r Cyd-bwyllgor I'w cymeradwyo erbyn 31/07/2018.**

## 7.2. DATGANIAD CYFRIFON 2017-18 & ADRODDIAD ISA 260 SAC

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jeremy Saunders (Swyddfa Archwilio Cymru) a gafodd ei wahodd i ddod i gyfarfod y Cyd-bwyllgor i gyflwyno Adroddiad Barn ac Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru [ISA 260] er ystyriaeth ERW ochr yn ochr a'i adolygiad o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2017-18.

Dywedodd y Swyddog A151 fod y Datganiad Cyfrifon wedi cael ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol a'i fod yn adlewyrchu'r adroddiad alldro a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth 2018.

Codwyd cwestiwn ynghylch y cynnydd sylweddol mewn ffioedd ymgynghori o gymharu â ffioedd 2016-17. Cynigiodd Swyddog A151 ERW i gylchredeg y rheswm am y cynnydd i'r Cyd-bwyllgor.

Dosbarthodd Mr Jeremy Saunders yr Adroddiad Barn ac Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru [ISA 260] (dogfen 680A 2018-19) ac esboniodd bod yr adroddiad yn hwyr oherwydd terfynau amser.

Nododd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai Datganiad Llywodraethu anghyflawn yn arwain at adroddiad anghymwys.

**CYTUNWYD**

**7.2.1 cymeradwyo Datganiad Cyfrifon ERW 2017-18 Datganiad i'w lofnodi gan y Swyddog A151 ERW a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor;**

**7.2.2 derbyn Adroddiad Barn ac Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru [ISA 260].**

## 7.3. CYNLLUN ARCHWILIO SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AM ERW 2017-18

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Gynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ERW yn 2017-18 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod gwall yn yr adran 'Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen' ar wyneb ddalen yr adroddiad. Dylai nodi 'cymeradwyo'r ffi archwilio o £13,000' ac nid £14,000 fel y nodwyd.

**CYTUNWYD**

**7.3.1 cymeradwyo Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017-18 (cyfeirnod y ddogfen 453A 2018-19 (Mehefin 2018);**

**7.3.2 cymeradwyo'r ffi archwilio o £13,000;**

**7.3.3 derbyn yr amserlen fel y nodir yn enghraifft 4;**

**7.3.4 derbyn y cyfrifoldebau penodol fel y nodir yn Atodiad 1.**

**7.4. DIWEDDARIAD CYLLID ERW 2018-19**

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf o ran y sefyllfa ariannol ar gyfer 2018-19, a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â

- Chyllideb y Tîm Canolog 2018-19
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Dyraniadau Grant 2018-19
- Grantiau 2018-19 – Grant Amddifadedd Disgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grantiau 2018-19 – Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol
- Blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW yn 2018-19
- Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW
- Risgiau
- Cronfeydd wrth gefn

Gan gyfeirio at gofnod 5 y cyfarfod diwethaf lle gofynnwyd am eglurhad ynghylch sefyllfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ynghylch talu ei gyfraniad tuag at gostau craidd ERW ar gyfer 2018/19, dywedwyd y byddai'r Cyngor yn lleihau ei gyfraniad i ERW yn y dyfodol. Gwnaed y penderfyniad gan yr Aelodau Etholedig yng nghyd-destun cyllideb refeniw 2018/19 y Cyngor ar 21 Chwefror, 2018. Roedd Mr Steven Phillips, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi egluro sefyllfa'r Cyngor mewn llythyr a atodwyd i'r adroddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr Arweiniol bod llythyr wedi'i ysgrifennu at y Cyngor mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ERW a atodwyd i'r adroddiad a bod ymateb wedi dod i law gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, roedd ymateb pellach yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Cydnabuwyd na fyddai taliad yn ofynnol tan Hydref 2018 a bod amser ar gael i ddod i gytundeb drwy broses gyfryngu anffurfiol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r mater gael ei ohirio a'i drafod ymhellach yn ystod cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

Cafwyd sylw y byddai'n fuddiol, at ddibenion cysondeb, ymchwilio i'r Awdurdodau Lleol hynny sydd ar hyn o bryd â nifer gyflawn o ymgynghorwyr her er mwyn canfod faint oedd yn cael ei wario yn y maes hwn.

Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol cael gwybod am nifer yr Ymgynghorwyr Her a gyflogir a'r gost i bob Awdurdod Lleol a gofynnodd i'r wybodaeth hon gael ei hystyried yn ystod cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod y llythyr yn Atodiad 2 o'r adroddiad yn nodi bod canlyniadau'r gwerthusiad diweddar wedi canfod bod angen cryn dipyn o waith er mwyn cryfhau'r trefniadau presennol. Er bod y llythyr yn cydnabod bod y gwerthusiad yn rhoi ystyriaeth i'r trefniadau yn ystod cyfnod 2015-16 a 2016-17, roedd cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud ers hynny i gryfhau'r trefniadau er bod mwy o waith ei angen.

Mynegodd Swyddog A151 ERW bryderon ynghylch llif arian ERW, o gofio nad oedd Llywodraeth Cymru wedi prosesu unrhyw daliadau i'r rhanbarth ar gyfer 2019-20 a dywedodd wrth y Cyd-bwyllgor y byddai'n rhaid iddo ysgrifennu at bob Swyddog A151 i roi gwybod iddynt na fyddai unrhyw daliadau yn cael eu prosesu i'r Awdurdodau Lleol na'r ysgolion hyd nes y ceir cadarnhad am y grant gan Lywodraeth Cymru.

Mynegwyd pryder sylweddol ynghylch yr angen am arweinyddiaeth o safon uchel ym maes addysgu. Teimlwyd bod llawer o athrawon safonol yn cael eu secondio i'r consortia, ac o ganlyniad yn lleihau nifer yr athrawon safonol.  Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr er mwyn cefnogi'r newidiadau oedd i ddod, roedd hi ar hyn o bryd yn cysylltu â phenaethiaid ac y byddai'n darparu adroddiad i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.

**CYTUNWYD**

**7.4.1 cymeradwyo Cyllideb y Tîm Canolog ar gyfer 2018/19;**

**7.4.2 gohirio'r camau i'w cymryd pe na fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn talu ei gyfran o'r £250k o Gyfraniad yr Awdurdodau Lleol ar gyfer 2018-19 hyd nes cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor;**

**7.4.3 i) bod dyraniadau grant 2018-19 a'r materion o ran bodloni pedwar o delerau ac amodau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn cael eu nodi a;**

**ii) i ofyn am lythyr ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn egluro telerau ac amodau'r grant.**

**7.4.4 nodi dyraniad grant 2018-19 a'r materion cyfredol o ran bodloni amodau a thelerau'r Grant Amddifadedd Disgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal;**

**7.4.5 nodi dyraniad Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol i flaenoriaethau Cynllun Busnes ERW 2018-19;**

**7.4.6 nodi'r materion cyfredol mewn perthynas ag (a) bodloni telerau ac amodau RCSIG a (b) y fformiwla ar gyfer dosbarthu'r grant a elwid gynt yn Grant Gwella Addysg, a gafodd ei gynnwys yn RCSIG 2018-19 fel trefniant trosiannol, i'r chwe Awdurdod Lleol;**

**7.4.7 ceisio cael eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnig / trefniadau o ran y cyllid o £250k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Adolygu a Diwygio, ac o ran ei ofynion ynghylch dychwelyd unrhyw arian sydd eisoes wedi'i wario;**

**7.4.8 gohirio'r penderfyniad ynghylch sut i ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn ERW, naill ai gyda chyfraniad untro gan y chwe Awdurdod Lleol neu gynnydd yn cyfraniad blynyddol presennol o £250k hyd nes cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor;**

**7.4.9 tynnu'n ôl y penderfyniad i benodi Rheolwr Gwella Cyllid a Busnes ar gontract tymor penodol am fis**

## 8. COFRESTR RISG

Cafodd y Cyd-bwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer 2017-18, a oedd yn cynnwys risgiau busnes strategol (bygythiadau) a allai fod yn niweidiol i gyflawni Gweledigaeth a Nodau ERW fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes ERW.

Er bod y Cyd-bwyllgor wedi nodi'r fformat newydd, dywedwyd bod dal angen cryn dipyn o waith ar y gofrestr. Dywedwyd y byddai adolygiad pellach o'r sgoriau risg yn cael ei gyflawni.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod y Gofrestr newydd yn anghyflawn, ac nid yr Aelodau yw'r perchenogion.

Dywedwyd y byddai adolygiad pellach o'r sgoriau risg yn cael ei gyflawni.

**CYTUNWYD**

**8.1 bod y Gofrestr Risg yn cael ei nodi;**

**8.2 bod angen gwaith pellach er mwyn cwblhau'r gofrestr risg, gan gynnwys adolygu'r sgorau risg.**

## 9. ADRODDIADAU ADOLYGU AC DIWYGIO:-

### 9.1. CYNIGION ADNODDAU DYNOL

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau ERW a'r cynnig i greu 3 swydd barhaol er mwyn sefydlogi a chryfhau'r Tîm Canolog arfaethedig. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys disgrifiadau swydd ar gyfer y 3 swydd arfaethedig ganlynol:-

- Pennaeth Gwella Busnes
- Pennaeth Perfformiad ac Arweinyddiaeth Ysgolion
- Pennaeth Cymorth a'r Cwricwlwm

Nodwyd bod y diffyg sefydlogrwydd a chapasiti parhaol yn y Tîm Canolog yn ERW yn risg y tynnwyd sylw'r Cyd-bwyllgor ato ers mis Tachwedd 2016.

Er mwyn cynnal cyfweliad cytbwys ac theg, pwysleisiodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i sicrhau bod gan bob Awdurdod Lleol gynrychiolaeth ar y Pwyllgor Penodi.

Mynegwyd pryder y byddai costau'r 3 swydd yn cyfateb i tua £250k ac felly, teimlwyd y dylid datblygu achos busnes.

Dywedwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Cyfarwyddwyr ar 20 Gorffennaf 2018 i ystyried y Disgrifiadau Swydd yn fanylach.

Yn sgil natur y rôlau a'r meysydd y byddant yn eu gwasanaethu, gofynnwyd i'r disgrifiadau swydd ar gyfer Pennaeth Perfformiad ac Arweinyddiaeth Ysgolion a'r Pennaeth Cymorth a Chwricwlwm gael eu newid i adlewyrchu hynny. Barnwyd bod angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn rhugl yn y defnydd o'r Gymraeg ar adeg penodi.

Yn ogystal, gan y byddai'r swydd Pennaeth Gwella Busnes i raddau helaeth yn swydd gefn swyddfa, cytunwyd y dylid nodi bod 'y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg' yn parhau'n *Ddymunol.*

**CYTUNWYD**

**9.1.1 bod y cynnig i greu'r 3 swydd ganlynol:**

- Pennaeth Gwella Busnes
- Pennaeth Perfformiad ac Arweinyddiaeth Ysgolion
- Pennaeth Cymorth a'r Cwricwlwm

**yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y canlynol:**

**i) bod y swyddi Pennaeth Perfformiad ac Arweinyddiaeth Ysgolion a Phennaeth Cymorth a'r Cwricwlwm yn cael eu diwygio i nodi 'bod y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn *Hanfodol* ar lefel rugl ar adeg penodi;**

**ii) bod y Disgrifiadau Swydd a'r Manylebau Swydd yn cael eu hystyried ymhellach gan y Cyfarwyddwyr, y Swyddog Adran 151 a'r Grŵp AD (x6 un o bob Awdurdod Lleol).**

## 9.2 ADOLYGU CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH A THREFNIADAU MEWN DA

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad a oedd yn amlinellu sefyllfa bresennol y Cytundebau Lefel Gwasanaeth a'r trefniadau mewn da gan gynnwys argymhellion.

Nodwyd yn gyffredinol, bod llawer o'r gwasanaethau a ddarperir i ERW o dan gytundebau a thrwy gyfrwng CLG gan yr awdurdodau lleol wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn amserol i gynnal adolygiad i ganfod gwerth am arian ac ansawdd a maint y gwasanaethau wrth i'r sefydliad ehangu.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod materion seilwaith hanfodol wedi'u nodi fel rhai sydd angen sylw brys, gan gynnwys Adnoddau Dynol, Cyllid, Archwilio, TG, Yswiriant, Llety, Iechyd a Diogelwch a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Oherwydd y lefel risg sylweddol, cynigiwyd cymeradwyo'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth fel y nodir yn yr adroddiad.

Nodwyd mai Cyngor Sir Penfro oedd yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau.

Awgrymwyd ailsefydlu'r trefniadau o ran y Cytundebau Lefel Gwasanaeth o 1 Ebrill 2019.

Yn sgil yr uchod ac yn dilyn ymholiad a ddaeth i law ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am yswiriant, gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad pellach i gael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor nesaf a dywedodd y byddai'n ymarferol parhau gyda'r trefniadau presennol hyd nes y cyfarfod nesaf.

**Cytunwyd**

**9.1.1 y byddai adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am faterion yswiriant yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor;**

**9.2.3 tan hynny bydd y Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol a'r trefniadau mewn da yn parhau;**

**9.1.2 gwahodd datganiadau o ddiddordeb o ran trefniadau mewn da/swyddogion statudol, a Chytundebau Lefel Gwasanaeth gan yr holl Awdurdodau Lleol o fis Medi 2018.**

## 9.3. AMLINELLU CYLCH GWAITH AR GYFER ADOLYGU AC ADNEWYDDU TREFNIADAU LLYWODRAETHU ERW

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad a oedd yn ceisio egluro cwmpas y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni mewn perthynas â threfniadau llywodraethu ERW.

Nodwyd yn dilyn adroddiad diweddar ESTYN ac yn sgil yr adolygiad o'r Model Cenedlaethol, teimlwyd bod hyn yn amser da i adolygu'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ERW yn parhau'n effeithiol ac effeithlon.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion am y canlynol:

- Egwyddorion llywodraethu da
- Cylch gwaith y consortia rhanbarthol a'r Awdurdodau Lleol
- Nodweddion y gwasanaeth gwella ysgolion sydd wedi'i fireinio yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (drafft)
- Yr heriau presennol
- Meysydd allweddol i'w hadolygu

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau, roedd y meysydd allweddol ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys strwythur llywodraethu arfaethedig a fyddai'n sicrhau bod yr holl randdeiliad yn glir ynghylch cylch gorchwyl pob grŵp/bwrdd, i gryfhau'r broses graffu ar ERW ac chryfhau sicrwydd ansawdd mewn Awdurdodau Lleol.  Yn ogystal, darparwyd aelodaeth drafft i'r Cyd-bwyllgor ynghyd â'r cylch gwaith a phwerau dirprwyedig y pwyllgor a oedd yn cynnwys 12 o gyfrifoldebau penodol er mwyn hyrwyddo gweithio ar y cyd wrth ddarparu gwasanaethau.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at 12 cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor (Tudalen 466).  Mynegwyd sylw y dylai un o gyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor gynnwys 'monitro'r sefyllfa a chyfeiriad y darlun cenedlaethol'.

- Mewn ymateb i nifer o ymholiadau ynghylch gwaith datblygu pellach, nododd y Cadeirydd y byddai'n anodd i ddatblygu'r Strwythur Rheoli ymhellach hyd nes ceir cadarnhau am y Model Cenedlaethol.

**Cytunwyd:**

**9.1.1 bod yr adroddiad arAmlinellu'r Cylch Gwaith ar gyfer Adolygu a Diwygio Trefniadau Llywodraethu ERW, yn cael ei nodi yn waith sydd ar y gweill;**

**9.1.2 bod yr adroddiad yn cael ei fwydo i Raglen Adolygu a Diwygio ERW (Cyd-bwyllgor 21/9/17 penderfyniad 7.1-7.3);**

**9.1.3 i nodi'r heriau.**

## 10. ADRODDIAD AR DDIFFYG CYDYMFFURFIAETH

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd ERW'n cydymffurfio ag amodau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG).

Atgoffodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyd-bwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi uno nifer o'r grantiau i'r Consortia Rhanbarthol yn un Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSIG). Roedd y cyllid fod cael ei dalu bod i'w dalu yn ddeufisol yn seiliedig ar gostau fel y nodir yn y Proffil Taliadau y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru.

Gwerth y grant i ERW oedd £40,971,102. Yn ogystal, mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ERW, y cyfeiriwyd ato hefyd yn y llythyr cynnig yn yr atodiad, werth £24,233,150. Nodwyd yn y llythyr cynnig grant, "Rydym yn cadw'r hawl i atal neu adennill unrhyw ran o'r cyllid”.

Nodwyd bod y rhanbarthau eraill wedi cael dyraniad y chwarter 1af ac roeddent ar fin cael y dyraniad ar gyfer yr 2il chwarter. Nid oedd ERW wedi cael ei ddyraniad eto a oedd yn achosi pryder i ysgolion nad oedd wedi cael eu cyllid sylfaenol na'r Grant Gwella Addysg.

Yn ogystal, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr wrth ddehongli'r amodau, nad yw ERW ar hyn o bryd yn bodloni o leiaf 6 o'r amodau fel y nodir yn yr adroddiad.

Pwysleisiodd y Rheolwr Gyfarwyddwr os na fyddai'r Cyd-bwyllgor yn cytuno ar fformiwla ariannu cyffredin ar gyfer pob ysgol yn y cyfarfod hwn, ni fyddai ysgolion yn cael cyllid y tymor hwn.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Cyd-bwyllgor mewn sefyllfa i gytuno ar hyn hyd nes bod Cynllun Busnes ERW yn cael ei gymeradwyo (gweler eitem 6.7 uchod), yn dilyn cymeradwyaeth, bydd y mater yn cael ei ddwyn gerbron y Cyd-bwyllgor er mwyn cael penderfyniad. Yn y cyfamser, awgrymwyd i barhau â'r fformiwla ariannu cyffredin presennol ar gyfer pob ysgol.

**CYTUNWYD**

**10.1 i) bod y mater hwn yn cael ei ohirio i gyfarfod y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol yn dilyn cymeradwyo Cynllun Busnes ERW (gan Lywodraeth Cymru) yn y cyfamser;**

**ii) bod Swyddogion yn parhau â'r fformiwla gyllido gyffredin cyfredol ar gyfer pob ysgol;**

**10.2** **i gyfarwyddo'r Rheolwr Gyfarwyddwr i drafod trefniadau dros dro gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith datblygu gael ei roi ar waith er mwyn cael ar grant ar gyfer ysgolion;**

**10.3** **bod yr ysgolion yn cael gwybod drwy swyddogion A151 yr Awdurdod Lleol unigol.**

## 11. UNRHYW FATER ARALL

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**